Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Tabl o gymwysterau gofynnol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru

Mae'n rhaid i chi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol. Er mwyn cofrestru rhaid i chi feddu ar un o'r cymhwysterau a restrir isod. Gellir darllen rheolau Cofrestru Gofal Cymedeithasol Cyrmu ar ein we fan– rheolau cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru

Cyrsiau a gofynoion hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol

Bydd Gofal Cymedeithasol Cymru yn ystyried bod deiliaid y tystysgrifau a'r llythyron canlynol, neu dystiolaeth arall o hyfforddiant, wedi bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant at ddibenion adran 84(a)(iii) y Ddeddf:

- Rhaglen ar lefel gradd israddedig neu ôl-raddedig mewn gwaith cymdeithasol a gymeradwyir gan Gofal Cymedeithasol Cymru neu gan Gyngor Gofal.
- Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol a ddyroddwyd gan naill ai Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol neu Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon neu Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Cyngor Gofal Cymru o 1991 ymlaen.
- Tystysgrif mewn Gwasanaeth Cymdeithasol a ddyroddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol o 1975 i 1995.
- Tystysgrif Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol a ddyroddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol o 1971 i 2002.
- Llythyr Cymaroldeb i Dystysgrif Cymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol a ddyroddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol tan 1990.
- Tystysgrif a ddyroddir gan y Sefydliad Gweithwyr Gofal Meddygol (Sefydliad yr Almonwyr gynt).
- Tystysgrif neu dystiolaeth arall o gwblhau cwrs a gydnabyddir gan y Sefydliad Gweithwyr Gofal Meddygol (Sefydliad yr Almonwyr gynt).
- Tystysgrif neu dystiolaeth arall o gwblhau cwrs a gydnabyddir gan y Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Seiciatryddol.
- Unrhyw gymhwyster, tystysgrif, llythyron a/neu dystiolaeth arall o hyfforddiant perthnasol neu ymarfer a aseswyd y pennir gan Gofal Cymedeithasol Cymru neu gan Gyngor Gofal arall i fod yn gyfwerth â'r rhai a nodir yn yr Atodlen hon.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government